



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

CYSWYLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithwyr,

20/09/2022

Mae marwolaeth hynod drist Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II wedi cyffwrdd â llawer ohonom ac mae cyfnod y Galaru Cenedlaethol wedi bod yn gyfle i werthfawrogi a myfyrio ar ei theyrnasiad 70 mlynedd anhygoel a'i hymrwymiad rhyfeddol i wasanaeth cyhoeddus.

Fel brenhines hiraf y DU, ni fydd y rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol o amser heb ei phresenoldeb a'i dylanwad. P'un a ydych chi'n cefnogi'r frenhiniaeth ai peidio, mae'n sicr bod y Frenhines wedi dangos ymrwymiad ysbrydoledig i wasanaeth cyhoeddus ar hyd ei hoes, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau llawer o bobl, rhywbeth rwy'n credu y gallwn ni i gyd gytuno, sy'n deilwng o barch a gwerth mawr.

Wrth edrych yn ôl dros yr 11 diwrnod, mae wedi bod yn emosiynol gweld cydweithwyr, cleifion ac ymwelwyr yn rhannu atgofion, myfyrdodau a theyrngedau, yn y Llyfr Cydymdeimlo yn y Capel, neu drwy fyfyrdod neu weddi dawel a thrwy siarad ag eraill a'u cefnogi.

Ddoe, roedd llawer o gydweithwyr a chleifion yn gallu gwyllo neu wrando ar yr Angladd Gwladol ar sgriniau mawr a bach, felly diolch i'r rhai a wnaeth hynny'n bosibl ar draws ein safleoedd, gan gynnwys Radio Ysbyty Morgannwg, a wnaeth sicrhau y gallai pawb oedd eisiau cymryd rhan yn y digwyddiadau hanesyddol ddoe wneud hynny.

Ddydd Gwener, cefais i a Charles Janczewski, Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro y fraint anhygoel o gynrychioli'r Bwrdd Iechyd yn y Gwasanaeth Gweddio a Myfyrio ar Fywyd y Frenhines

Elizabeth II yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Roedd yn ddigwyddiad hynod deimladwy, ac yn wasanaeth addas i nodi teyrnasiad Ei Mawrhydi ac roedd yn dipyn o beth i weld pobl Caerdydd yn dod at ei gilydd ar hyd y strydoedd i groesawu'r Brenin Charles III a'r Frenhines Gydweddog i'n prifddinas.

Rwyf am estyn diolch o galon i'r rhai a wnaeth gyfrannu at gynllunio'r nifer helaeth o ddigwyddiadau Brenhinol a gynhaliwyd dros yr wythnos diwethaf. Mae maint y cynllunio a'r paratoi sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni i gadw ein poblogaeth yn ddiogel ac yn iach yn dasg enfawr, ac ni allai fod wedi bod yn bosibl heb y gwaith tîm anhygoel, ymroddiad ac ymrwymiad gan gydweithwyr a phartneriaid allweddol gan gynnwys timau cynllunio brys, awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

Rwy'n parhau i gael fy ysbrydoli gan gydweithwyr a thimau ar draws y Bwrdd Iechyd ac rwy'n ddiolchgar iawn i chi i gyd am y ffordd broffesiynol a thosturiol rydych chi wedi ymdrin â heriau'r wythnosau diwethaf ac wedi ymateb i anghenion cleifion, dinasyddion a phartneriaid. I'r rhai a weithiodd ddoe i sicrhau'r effaith leiaf posibl ar wasanaethau hanfodol, diolch yn fawr. Rwy'n gwybod y gall newidiadau byr rybudd i wasanaethau fod yn rhwystredig i chi, i gleifion ac anwyliaid felly diolch i bawb am fod mor hyblyg a chymwynasgar.

Dymuniadau gorau,

Suzanne



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Y Cadeirydd Charles Janczewski a fi yn Eglwys Gadeiriol Llandaf



Ei Fawrhydi y Brenin Charles III a'r Frenhines Gydweddog yn Eglwys Gadeiriol Llandaf



Plant ysgol ac aelodau o'r cyhoedd yn sefyll ar hyd strydoedd Caerdydd